Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Bro Banw**
**Stryd Fawr**
**Rhydaman**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 2NS**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/03/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Bro Banw yn nhref Rhydaman yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.  Ar hyn o bryd, mae 467 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 22 o ddisgyblion meithrin amser llawn.  Mae 16 o ddosbarthiadau oedran cymysg ac wyth dosbarth un oedran.  Hefyd, mae saith o ddosbarthiadau arbenigol (unedau asesu ac iaith, ac uned anghenion arbennig) ar gyfer disgyblion o bob rhan o’r awdurdod lleol.

Mae’r ysgol wedi ei dynodi'n ysgol ddwyieithog o dan bolisi iaith yr awdurdod lleol. Yn y Cyfnod Sylfaen prif ffrwd, mae dau ddosbarth lle caiff disgyblion eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, a phum dosbarth lle bydd disgyblion yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae dau ddosbarth lle caiff yr holl bynciau, ar wahân i fathemateg a gwyddoniaeth, eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac wyth dosbarth lle mae’r addysgu yn Saesneg.

Mae tua 24% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy’n agos iawn at y cyfartaledd cenedlaethol.  Mae’r ysgol yn dynodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 40% o’i holl ddisgyblion, gan gynnwys 31% mewn dosbarthiadau prif ffrwd, sydd ymhell uwchlaw’r ffigur cenedlaethol, sef 20%.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig yn y dosbarthiadau prif ffrwd.

Daw rhyw 10% o ddisgyblion o gartrefi lle mae’r Gymraeg yn brif iaith. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.  Nifer fach iawn o ddisgyblion sydd dan ofal yr awdurdod lleol.

Mae’r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2005.  Yn Ebrill 2010 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Banw yn 2015-2016 yw £5,334.  Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,382 a’r lleiafswm yw £3,111.  Mae Ysgol Bro Banw yn yr wythfed safle o’r 101 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd yn y dosbarthiadau arbennig yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau unigol
- mae ychydig iawn o ddisgyblion ag anawsterau cyfathrebu cymhleth yn defnyddio cymhorthion cyfathrebu yn dda i ateb cwestiynau a gwneud dewisiadau
- yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn datblygu eu syniadau'n ddychmygus ac yn mynegi barnau'n glir yn Saesneg
- mae safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda iawn ar draws yr ysgol gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau yn dda ar draws pob agwedd ar y pwnc wrth iddynt symud drwy'r ysgol
- mae dealltwriaeth disgyblion o e-ddiogelwch yn gryfder arbennig yn yr ysgol

Fodd bynnag:

- cyfyngedig yw medrau Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2
- mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn defnyddio'u medrau rhifedd yn ddigon da ar draws yr ystod pynciau yng nghyfnod allweddol 2
- mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol, er eu bod yn gwella, yn parhau i osod yr ysgol yn y 25% gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg
- nid yw cynlluniau tymor byr athrawon yn cyfateb yn ddigonol i gynlluniau tymor canolig ac, o ganlyniad, mae ehangder a chwmpas pynciau yn rhy gyfyngedig mewn gormod o achosion
- nid yw athrawon bob amser yn asesu gwaith disgyblion yn gywir, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2; o ganlyniad, mae'r ysgol yn gosod targedau amhriodol ar gyfer cyrhaeddiad nad ydynt yn adlewyrchu lefel gallu a chyrhaeddiad disgyblion yn llawn

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw arweinwyr yn gwirio cywirdeb asesiadau athrawon yn ddigonol nac yn ystyried deilliannau asesu yn drwyadl ochr yn ochr â'r dystiolaeth o safonau yn llyfrau disgyblion
- nid yw adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi darlun cywir ac onest o gryfderau

a gwendidau'r ysgol

- nid yw arweinwyr yn monitro gweithredu'r cwricwlwm yn drwyadl
- dros amser, nid yw arweinwyr yn llwyddo digon i sicrhau bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn perfformio gystal ag y gallent
- mae dealltwriaeth llywodraethwyr o ddata perfformiad yr ysgol yn gyfyngedig ac nid ydynt yn cael digon o effaith ar gyfeiriad strategol yr ysgol
- nid yw'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn dilyn arfer orau wrth bennu'r trefniadau ar gyfer penodi staff i swyddi arweinyddiaeth ac nid ydynt yn cynnig mynediad cyfartal i staff at gyfleoedd ar gyfer datblygu a dyrchafiad
- nid yw arweinwyr yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn briodol nac yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith

A2 Gwella presenoldeb

A3 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer rhifedd, Cymraeg ac addysg grefyddol yn cael ei chynllunio'n gyson

A4 Sicrhau cywirdeb asesiadau athrawon o waith disgyblion, yn enwedig mewn Cymraeg

A5 Sicrhau bod y corff llywodraethol yn dilyn arfer orau o ran recriwtio staff i swyddi arweinyddiaeth, datblygu eu rôl wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol a herio arweinyddiaeth yr ysgol yn gadarnhach

A6 Datblygu rolau monitro arweinwyr fel eu bod yn gallu arfarnu eu meysydd cyfrifoldeb yn gywir er mwyn bwydo eu canfyddiadau i hunanarfarniad cywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol

A7 Sicrhau bod defnydd priodol ac effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol ryw 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

O'u mannau cychwyn, mae'r mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da mewn llawer o agweddau ar y cwricwlwm. Mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn y dosbarthiadau arbennig yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau unigol. Yn y dosbarthiadau hyn, mae'r holl ddisgyblion yn datblygu'u medrau cyfathrebu yn dda yn unol â'u hanghenion. Mae ychydig iawn o ddisgyblion sydd ag anawsterau cyfathrebu cymhleth yn defnyddio cymhorthion cyfathrebu yn dda i ateb cwestiynau a gwneud dewisiadau. Mae ychydig o'r disgyblion hyn yn datblygu'u medrau darllen ac ysgrifennu yn dda mewn perthynas â'u gallu.

Ar draws yr ysgol, mae medrau gwrando da gan lawer o ddisgyblion ac maent yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a disgyblion eraill. Gall y rhan fwyaf ohonynt adalw eu dysgu blaenorol ac maent yn ymateb yn gyson dda i gwestiynau athrawon. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn defnyddio ystod addas o eirfa yn effeithiol i gyfleu eu syniadau ac i ymateb i gwestiynau a chyfarwyddiadau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer ohonynt drafod eu syniadau'n fanylach, ac mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio geirfa estynedig yn dda mewn Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau cyfathrebu da gan lawer o ddisgyblion ac maent yn trafod testunau'n hyderus gyda disgyblion eraill. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus i leisio'u barnau ac wrth drafod agweddau ar eu gwaith gan ddefnyddio geirfa Saesneg sy'n benodol i bwnc. Geirfa Gymraeg gyfyngedig sydd gan fwyafrif o ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2, ac mae eu cystrawen yn rhy wan yn aml.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn dda yn y ddwy iaith yn unol â'u hoedran a'u gallu. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i atalnodi pan fyddant yn darllen yn uchel ac, yn gyffredinol, maent yn darllen yn rhugl gyda goslef dda. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod o strategaethau yn effeithiol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda wrth ddarllen yn Saesneg. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion mwy abl sy'n darllen ystod o ddeunydd darllen sy'n eu herio'n ddigonol, a hynny'n aml o ganlyniad i weithio'n rhy slafaidd drwy gynlluniau gwaith cyhoeddedig. Mae medrau darllen y mwyafrif o ddisgyblion yn Gymraeg yn rhy gyfyngedig. Ychydig iawn o wybodaeth sydd gan lawer ohonynt am awduron a diwylliant Cymru. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau darllen lefel uwch yn effeithiol wrth adalw gwybodaeth o ystod o destunau yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth ymchwilio i Derfysgoedd Rebeca yn Gymraeg a chasglu gwybodaeth am goedwigoedd glaw yn Saesneg.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer o ddisgyblion gynhyrchu gwaith sydd wedi'i drefnu'n dda. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn ymestyn eu syniadau'n

llwyddiannus, gan ddefnyddio ystod eang o atalnodi a geirfa, er enghraifft, wrth ysgrifennu adolygiad llyfr yn Gymraeg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth o ffurfiau. Maent yn datblygu eu syniadau'n ddychmygus ac yn mynegi barnau'n glir, er enghraifft mewn llythyrau at Gyngor Tref Rhydaman yn rhoi achos digrif gerbron dros beidio â dymchwel yr ysgol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae dealltwriaeth gadarn o arddulliau ysgrifennu gwahanol gan y rhan fwyaf ohonynt ac maent yn addasu'u hysgrifennu yn dda at ddibenion gwahanol, er enghraifft wrth ysgrifennu bywgraffiadau a chreu taflenni gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau ysgrifennu estynedig yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Ychydig o ddisgyblion abl sy'n ysgrifennu'n estynedig ac i'w potensial llawn mewn cyd-destun ehangach.

Yn gyffredinol, agwedd gadarnhaol sydd gan ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg at ddysgu Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i ystod o gyfarwyddiadau, cyfarchion a chwestiynau syml yn Gymraeg. Gall mwyafrif o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ddefnyddio cystrawen sylfaenol yn briodol mewn ystod gyfyngedig o ysgrifennu. Fodd bynnag, mae medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gyfyngedig. Ychydig ohonynt sy'n gallu cynnal sgyrsiau sylfaenol. Mae diffyg hyder ymhlith y mwyafrif, ac mae ystod eu geirfa'n gul. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn wan, ac erbyn diwedd y cyfnod, dealltwriaeth gyfyngedig o'r testunau y maent yn eu darllen y mae llawer yn ei dangos. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ymadroddion a phatrymau syml yn eu hysgrifennu, ond maent yn rhy ddibynnol ar fframiau ysgrifennu ac nid ydynt yn datblygu'u medrau ysgrifennu annibynnol yn ddigonol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda ar draws meysydd dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o rifau yn dda i ddatrys problemau sy'n ymwneud ag arian. Mae dealltwriaeth gadarn o amser gan lawer ohonynt, ac mae mwyafrif yn gallu trosi o amser analog i amser digidol yn gywir ar lefel sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu amcangyfrif a dewis uned fesur briodol yn llwyddiannus, er enghraifft, yn eu gwaith yn dylunio tai sinsir. Gall lawer o ddisgyblion ddidoli a dosbarthu gwrthrychau yn llwyddiannus a llunio graff priodol yn hawdd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae dealltwriaeth gadarn o werth lle gan lawer ohonynt. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn lluosi ac yn rhannu degolion gyda chywirdeb. Mae dealltwriaeth dda o ffracsiynau gan lawer o ddisgyblion, gydag ychydig o ddisgyblion mwy abl yn adio ac yn tynnu ffracsiynau yn hyderus. Mae dealltwriaeth gadarn o rif gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ac maent yn gallu cymhwyso'u gwybodaeth yn llwyddiannus i gyfrifo problemau bywyd go iawn, er enghraifft yn eu gwaith ar gynilo i brynu car trydan. Gall llawer o ddisgyblion godi a dehongli gwybodaeth o graffiau wrth drafod y glawiad a'r tymheredd cyfartalog misol mewn coedwig law. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn ddigon cyson nac ar lefel ddigon uchel ar draws y cwricwlwm.

Mae safonau mewn TGCh yn dda iawn ar draws yr ysgol, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn dda ar draws pob agwedd ar y pwnc wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae dealltwriaeth disgyblion o e-ddiogelwch yn gryfder penodol yn yr ysgol.

Ceir nifer fawr o ddisgyblion o'r awdurdod lleol sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau arbenigol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 sy'n effeithio ar ddata perfformiad yr ysgol.

Mae perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd (Saesneg) a datblygiad mathemategol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn dangos tuedd gyffredinol tuag i lawr o ran y deilliannau disgwyliedig dros y tair blynedd diwethaf. Mae wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 50% is a'r 25% gwaelod yn y drefn honno o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd (Cymraeg) wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf.

O ran y deilliannau uwch na'r disgwyl, mae safle'r ysgol wedi amrywio'n nodedig mewn llythrennedd (Saesneg) a datblygiad mathemategol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd (Cymraeg) wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2015, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad mewn llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) a datblygiad mathemategol yn dangos tuedd tuag i fyny.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg wedi tueddu i fod islaw'r cyfartaledd o gymharu â lefelau mewn ysgolion tebyg, ac mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mae wedi tueddu amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 25% gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf am y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, bu tuedd tuag i fyny dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae perfformiad ym mhob un o'r pedwar pwnc wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn gyffredinol, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn tueddu peidio â pherfformio gystal fel grŵp â disgyblion eraill. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bechgyn yn tueddu perfformio islaw merched o ran deilliant 6 mewn llythrennedd (Saesneg) a datblygiad mathemategol. Yn gyffredinol, mae bechgyn a merched yn tueddu gwneud gystal â'i gilydd ym mhob un o'r pynciau craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

## Lles: Digonol

Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod pwy i fynd atynt os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos parch a gofal at ei gilydd ac yn dangos lefelau da o ymddygiad a hunanddisgyblaeth mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol.

Mae dealltwriaeth dda gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o’r hyn sydd raid iddynt wneud er mwyn cadw’n iach, er enghraifft cerdded y ‘filltir hud’ amser chwarae. Mae’r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac mae bron pob un o’r dysgwyr yn gwybod sut i gadw’n ddiogel wrth ddefnyddio’r rhyngrwyd.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi gwella. Fodd bynnag, mae’r gyfradd presenoldeb gyffredinol yn parhau i osod yr ysgol yn y 25% gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg, ac mae hyn wedi tueddu bod yn wir dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae’r cyngor ysgol sydd wedi sefydlu’n gadarn wedi gweithio’n effeithiol i gefnogi gweithdrefnau gwrth-fwlio’r ysgol ac wedi codi arian ar gyfer ‘meinciau bydis’. Mae medrau cymdeithasol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol, er enghraifft, wrth weithio tuag at wobr entrepreneuriaeth a thrwy gysylltiadau gyda’r gymuned, fel cyfranogi yng nghôr yr ysgol. O ganlyniad, cânt eu paratoi’n dda ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i’r ysgol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi datblygu’u medrau digon fel dysgwyr annibynnol ac nid ydynt bob amser yn ymwybodol o’r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae’r ysgol yn cynllunio ystod gadarn o brofiadau dysgu diddorol sy’n cymell disgyblion yn dda. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio’r cwricwlwm yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn rhoi sylw i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a’r meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn briodol. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth yn sicrhau ymdrin yn llawn â’r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o glybiau ar ôl ysgol, fel chwaraeon, arweinwyr digidol a gemau bwrdd, er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ac i ddatblygu’u medrau ehangach yn effeithiol. Mae’r cynllunio ar gyfer datblygu TGCh yn gynhwysfawr. Mae’r ysgol yn cynnig amrywiaeth ddiddorol o ymweliadau addysgol i’r holl ddisgyblion ar draws yr ysgol, er enghraifft, â fferm leol a thraeth Pentywyn.

Yn gyffredinol, mae cynlluniau cwricwlwm newydd yr ysgol yn dangos cyfleoedd priodol i ddatblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau tymor byr athrawon yn cyfateb i gynlluniau tymor canolig, ac mae hyn yn arwain at ddiffyg ehangder ac ymdriniaeth mewn lleiafrif o feysydd y cwricwlwm, er enghraifft yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Nid yw cynlluniau cwricwlwm yn sicrhau bod disgyblion ar draws yr ysgol yn cael cyfleoedd cyson i ysgrifennu’n estynedig ac i gymhwyso’u medrau rhifedd yn rheolaidd ym mhob dosbarth yng nghyfnod allweddol 2. Mae’r ysgol yn darparu cymorth buddiol i wella medrau llythrennedd a rhifedd grwpiau penodol o ddysgwyr. Caiff y ddarpariaeth hon effaith gadarnhaol ar y safonau y mae’r plant hyn yn eu cyflawni.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn y dosbarthiadau arbennig yn gryfder yn yr ysgol. Caiff pob un o’r disgyblion raglenni sy’n bodloni eu hanghenion unigol yn dda. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio’n effeithiol â gweithwyr iechyd proffesiynol i ddarparu rhaglenni unigol sy’n galluogi disgyblion i wneud cynnydd da.

Ceir darpariaeth gadarn ar gyfer datblygu gwybodaeth disgyblion am ddiwylliant a hanes Cymru yn y Cyfnod Sylfaen, ond mae'n fwy cyfyngedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy yn dda. Caiff aelodau'r cyngor eco eu cynnwys yn weithredol wrth ailgylchu ac maent yn gweithio gyda'r ysgol uwchradd leol i ailgylchu plastig yn gynhyrchion newydd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r defnydd o gynhyrchion masnach deg, ac yn helpu disgyblion i ddeall eu rolau fel dinasyddion y byd trwy godi arian i ysgol ym Mhatagonia.

**Addysgu: Digonol**

Mae bron yr holl wersi yn ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Lle mae'r addysgu yn effeithiol iawn, fel ydyw mewn rhyw hanner o'r dosbarthiadau, mae'r gweithgareddau dysgu yn annog ac yn cymell disgyblion i gymryd rhan weithgar a llawn yn eu dysgu. Mae disgwyliadau uchel gan athrawon, ac maent yn addasu tasgau yn dda i fodloni anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr. Gwna pob un o'r staff ddefnydd da o adnoddau, yn enwedig TGCh, i gefnogi a chyfoethogi dysgu disgyblion. Mewn ychydig iawn o wersi, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw tasgau'n herio disgyblion yn ddigonol, nid yw athrawon yn symud y dysgu yn ei flaen ar gyflymder priodol ac maent yn cyfeirio gweithgareddau gormod.

Mae bron yr holl athrawon yn gweithio'n llwyddiannus gyda chynorthwywyr addysgu i gynorthwyo unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae gan athrawon a chynorthwywyr addysgu yn y dosbarthiadau arbennig ddealltwriaeth glir iawn o anghenion a galluoedd disgyblion unigol. Defnyddir y wybodaeth hon yn dda iawn ganddynt i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau buddiol sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd da. Mewn ychydig o ddosbarthiadau cyfnod allweddol 2, fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn llawn ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Nid yw'r addysgu bob amser yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau yn briodol mewn Cymraeg fel ail iaith.

Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Yn y rhan fwyaf o achosion, lle mae'r marcio ar ei orau, mae sylwadau ysgrifenedig athrawon yn cysylltu'n briodol â ffocws gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn helpu disgyblion i weld pa mor dda maent wedi gwneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae ansawdd y marcio yn amrywio gormod ar draws yr ysgol.

Ceir system briodol yn yr ysgol i olrhain cynnydd unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn gywir bob amser, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gosod targedau amhriodol nad ydynt yn adlewyrchu lefel gallu disgyblion unigol, yn enwedig mewn Cymraeg. Mae hyn yn cyfyngu ar ddefnyddioldeb a chywirdeb gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer asesu a gosod targedau. Mae staff yn y dosbarthiadau arbennig yn gwneud defnydd da o ddata asesu a data perfformiad i olrhain cynnydd disgyblion unigol ac i ddarparu cymorth helaeth i ddisgyblion y mae angen help ychwanegol arnynt gyda'u dysgu.

Mae rhieni a gofalwyr yn cael gwybodaeth briodol am gynnydd a chyflawniad eu plentyn trwy gyfarfodydd rhieni rheolaidd ac adroddiadau blynyddol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ystod eang o ymwelwyr yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned leol ac mae'n cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion gefnogi digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol, fel ymweliadau gan gôr yr ysgol â chartrefi gofal lleol.

Mae gwybodaeth werthfawr ar gael i ddisgyblion a rhieni trwy wefan yr ysgol, gan gynnwys cylchlythyrau a chyngor ar e-ddiogelwch. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth i gynnig arweiniad, cymorth a gwybodaeth i ddisgyblion a rhieni. Mae swyddog cyswllt teuluol yr ysgol yn monitro ac yn olrhain data presenoldeb yn briodol ac yn nodi tueddiadau ac unigolion y mae angen ymyrraeth arnynt.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn annog disgyblion i fwyta'n iach, a thrwy ystod o glybiau ar ôl ysgol, maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu eu lefelau iechyd a ffitrwydd trwy weithgareddau corfforol a chwaraeon.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiogelwch ar y rhyngrwyd yn effeithiol iawn ac mae 'arweinwyr digidol' sefydledig ar gyfer pob dosbarth yn cynorthwyo disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar, ac mae'r ysgol yn darparu ystod o strategaethau ymyrryd addas. Mae cynlluniau addysgu unigol yn cynnwys targedau clir y gellir eu mesur sy'n mynd i'r afael yn dda ag anghenion pob disgybl. Mae'r athrawon yn cofnodi cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau yn dda, ac yn cynnwys rhieni a disgyblion yn llawn yn y broses.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chyfeillgar. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth yn effeithiol. Rhoddir pwyslais cadarn ar barch, ac mae staff yn hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol yn effeithiol.

Mae adeiladau'r ysgol, sydd ar dri safle gwahanol, yn darparu amgylchedd dysgu diogel ac ysgogol sy'n gwbl hygyrch i'r holl ddisgyblion. Mae tu mewn yr adeiladau wedi'i drefnu yn dda, mae'n ddeniadol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae arddangosiadau o waith disgyblion yn y coridorau yn dathlu cyflawniadau a chynnydd dysgwyr yn effeithiol. Mae ystod dda o adnoddau mewn ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn dda, er enghraifft yr ystafelloedd cyfrifiaduron, ystafell recordio fideo ac offer chwarae tu allan.

Ceir adnoddau o ansawdd da yn ardal allanol safle'r Cyfnod Sylfaen ac mae staff a disgyblion yn ei defnyddio'n helaeth ar gyfer addysgu a chwarae. Mae'n cynnig amgylchedd dysgu difyr i ddisgyblion. Cyfyngedig o ran maint yw'r iardiau awyr agored ar safle'r plant iau, ond mae staff a disgyblion yn eu defnyddio'n rheolaidd ac yn effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r uwch dîm rheoli a'r tîm rheoli canol, ynghyd â'r staff, yn gweithio'n galed i gynorthwyo'r pennaeth. Maent wedi gweithio gyda'i gilydd i ffurfio gweledigaeth newydd ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu disgyblion fel arloeswyr y dyfodol mewn oes ddigidol. Mae arweinwyr yn llwyddo i ddechrau rhoi'r weledigaeth hon ar waith, yn enwedig o ran codi hyder a gallu disgyblion i ddefnyddio TGCh yn dda ac yn ddiogel. Mae arweinwyr a rheolwyr yn hyrwyddo amgylchedd diogel, trefnus, gofalgar a chefnogol i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi bod mor llwyddiannus yn creu ethos ysgol gyfan ar draws y tri safle ar wahân.

Yn gyffredinol, mae cyfarfodydd uwch reolwyr yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau, ac mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o reolwyr yn newydd i'w rolau a'u cyfrifoldebau, ac yn dechrau datblygu'u medrau arweinyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw cofnodion o gyfarfodydd ar bob lefel yn ddigon trwyadl, mae terfynau amser ar gyfer gweithredu yn aneglur, ac o ganlyniad, mae'r diwylliant o atebolrwydd yn wan. Mae arweinwyr yn dadansoddi ystod addas o ddata perfformiad, ond nid ydynt yn defnyddio hwn yn ddigon da i lywio'r adroddiad hunanarfarnu yn effeithiol. Nid ydynt yn gwirio cywirdeb asesiadau athrawon yn ddigonol nac yn ystyried deilliannau asesu yn drwyadl ochr yn ochr â'r dystiolaeth o safonau yn llyfrau disgyblion. Nid yw arweinwyr yn monitro gweithredu'r cwricwlwm yn drwyadl, ac mae hyn wedi arwain at fylchau yn ehangder a chydbwysedd profiadau disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn talu sylw boddhaol i flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae llyfrau disgyblion yn dangos effaith staff yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd. Dros gyfnod, fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn ddigon llwyddiannus yn sicrhau bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn perfformio gystal â disgyblion eraill yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol. Cymerodd ran fuddiol yn y broses o gytuno'r weledigaeth ar gyfer yr ysgol. Mae ymwybyddiaeth briodol o gryfderau'r ysgol gan aelodau o'r corff llywodraethol o ganlyniad i adroddiadau rheolaidd ar safonau a'r ddarpariaeth gan yr uwch dîm arwain. Fodd bynnag, maent yn rhy ddibynnol ar y wybodaeth a gânt gan y pennaeth, mae eu dealltwriaeth o ddata perfformiad yr ysgol yn gyfyngedig ac nid ydynt yn herio arweinyddiaeth yr ysgol digon fel ffrindiau beirniadol. Nid yw'r corff llywodraethol yn cael effaith ddigonol ar gyfeiriad strategol yr ysgol ac nid yw eu goruchwyliaeth o bolisïau a gweithdrefnau yn ddigon cadarn. Maent yn mynd ar droeon dysgu sy'n canolbwyntio ar agweddau, fel ymddygiad, ond nid yw llywodraethwyr yn canolbwyntio digon ar weithio gydag arweinwyr i gael dealltwriaeth well o safonau. Nid yw'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i arfer orau wrth benodi i swyddi arweinyddiaeth.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn ymgymryd ag ystod addas o brosesau hunanarfarnu. Mae'r rhain yn cynnwys tystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau, ochr yn ochr â dadansoddi data perfformiad a'r deilliannau o holiaduron disgyblion a rhieni. Bydd arweinwyr a rheolwyr canol yn cwblhau adroddiadau monitro ar agweddau ar ddarpariaeth a safonau. Mae'r rhain yn nodi rhai cryfderau yn briodol, ond nid ydynt yn ddigon arfarnol ac mae diffyg manylder, trylwyrder a chywirdeb ynddynt i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer dwyn cynlluniau gwella yn eu blaenau.

Mae strwythur addas i adroddiad hunanarfarnu'r ysgol. Mae'n cynnwys crynodeb defnyddiol o'r cryfderau ynghyd ag ychydig o feysydd i'w gwella ar ddiwedd pob rhan o'r adroddiad. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn ddigon arfarnol nac yn ddigon cywir, ac nid yw'n amlygu'r gwendidau mewn safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn onest ac agored. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn nodi'r holl feysydd allweddol sydd angen eu gwella, fel y gwendidau yn y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth.

Ceir cyswllt priodol rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'r adroddiad yn briodol i bennu blaenoriaethau a thargedau ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio'n addas ar godi safonau. Mae'r cynllun yn amlinellu targedau mesuradwy, graddfeydd amser a'r staff sy'n gyfrifol am y camau gweithredu a nodwyd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun datblygu yn ddigon cynhwysfawr na chywir i symud yr ysgol yn ei blaen yn effeithiol. Mae asesu cynnydd yn erbyn y cynllun datblygu blaenorol yn dangos nad yw'r targedau a osodir yn ddigon heriol yn aml. Er enghraifft, roedd y targedau a bennwyd i wella cyfraddau presenoldeb y llynedd yn rhy isel.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni trwy amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys ei gwefan ddiweddaredig, sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a newyddion am fywyd yr ysgol. Mae rhieni yn chwarae rhan weithgar yng ngwaith yr ysgol a gallant fynd at fforwm ar y we lle mae cyfle iddynt rannu'u barnau â'i gilydd a gyda'r ysgol. Mae'r ysgol wedi sefydlu arferion gweithio gwerthfawr gydag ysgolion lleol eraill, gan gynnwys trefniadau trosglwyddo rhwng y cyfnod cyn-ysgol, yr ysgol uwchradd ac ysgol arbennig. Mae'r cysylltiadau effeithiol hyn yn helpu i baratoi'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu. Mae cysylltiadau llwyddiannus gyda'r ysgol uwchradd yn gwella profiadau dysgu llawer o ddisgyblion. Er enghraifft, mae prosiect gan y pwyllgor eco i ailgylchu plastig yn arteffactau newydd yn yr ysgol uwchradd, tra bod disgyblion hŷn yr ysgol uwchradd yn darparu clwb Ffrangeg ar ôl ysgol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cymedroli gydag ysgolion eraill, ond nid yw hyn wedi cynorthwyo cywirdeb asesu yn ddigonol yn yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaeth dda â'r brifysgol leol i gefnogi a datblygu hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mae athrawon o'r ysgol wedi creu a chyflwyno hyfforddiant i athrawon o ysgolion cyfagos ar ddefnyddio technoleg yn yr ysgol a defnyddio'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae digon o athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o arbenigedd staff unigol i gyfoethogi'r dysgu a'r addysgu, yn enwedig mewn perthynas â TGCh ac AAA. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gwneud defnydd digonol o athrawon Cymraeg arbenigol i gyflwyno gwersi Cymraeg effeithiol. Caiff pob un o'r staff gyfleoedd i fynychu ystod eang o hyfforddiant priodol i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion.

Nid yw'r gweithdrefnau yn yr ysgol ar gyfer recriwtio i swyddi arweinyddiaeth yn dilyn arfer orau, ac nid ydynt yn cynnig mynediad cyfartal i staff at gyfleoedd ar gyfer datblygu a dyrchafiad. Mae'r rhain yn ddiffygion pwysig.

Mae ystod dda o adnoddau yn yr ysgol, yn enwedig o ran offer TGCh. Mae staff yn gwneud defnydd da iawn o'r ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored er budd dysgwyr.

Ceir trefniadau addas i ddarparu amser cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer athrawon. Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant effeithiol mewn ymateb i anghenion a nodwyd drwy'r broses rheoli perfformiad. At ei gilydd, mae'r rhain yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol.

Nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Nid yw adnoddau a brynwyd gyda'r grant yn canolbwyntio'n dda ar ddisgyblion targedig. Mae safonau a gyflawnir gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella o ran y deilliant disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, ond nid gymaint o ran y deilliant uwch. Ychydig o effaith y mae'r defnydd o'r grant wedi'i chael ar wella perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar y lefel ddisgwyliedig neu'r lefel uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r corff llywodraethol yn rhoi gormod o ddisgresiwn i'r pennaeth ynghylch penderfyniadau i wario symiau sylweddol o gronfeydd yr ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu goruchwyliaeth ariannol wan gan y corff llywodraethol. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella ar gyfer gwella safonau a lles disgyblion.

Er gwaethaf ansawdd darpariaeth yr ysgol a'r deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion yn gyffredinol, mae'r ysgol yn darparu gwerth anfoddhaol am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692392 - Ysgol Bro Banw**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 459 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 21.5 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 48 | 60 | 69 | 61 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 81.3 | 86.7 | 82.6 | 80.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 37 | 52 | 47 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 82.4 | 78.4 | 76.9 | 74.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.8 | 16.2 | 17.3 | 34.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 23 | 17 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.9 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 28.6 | 78.3 | 35.3 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 48 | 60 | 69 | 61 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 86.7 | 84.1 | 85.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 18.8 | 36.7 | 23.2 | 34.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 48 | 60 | 69 | 61 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 89.6 | 91.7 | 87.0 | 86.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 58.3 | 50.0 | 30.4 | 62.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692392 - Ysgol Bro Banw**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 459 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 21.5 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 52 | 49 | 57 | 73 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 80.8 | 81.6 | 87.7 | 91.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 52 | 49 | 57 | 73 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.8 | 81.6 | 87.7 | 91.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 36.5 | 24.5 | 63.2 | 60.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 5 | 9 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 100.0 | 100.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 77.8 | * |
| Chwartel meincnod | * | * | 1 | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 52 | 49 | 57 | 73 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 81.6 | 87.7 | 95.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 26.9 | 24.5 | 63.2 | 69.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 52 | 49 | 57 | 73 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.5 | 81.6 | 87.7 | 95.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 36.5 | 30.6 | 57.9 | 63.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 204 | 204<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 199 | 192<br>96%<br>92% | 7<br>4%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 200 | 196<br>98%<br>97% | 4<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 203 | 200<br>99%<br>97% | 3<br>1%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 203 | 195<br>96%<br>96% | 8<br>4%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 203 | 194<br>96%<br>96% | 9<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 203 | 202<br>100%<br>99% | 1<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 198 | 198<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 196 | 187<br>95%<br>91% | 9<br>5%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 203 | 202<br>100%<br>95% | 1<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 197 | 167<br>85%<br>77% | 30<br>15%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 195 | 177<br>91%<br>84% | 18<br>9%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 174 | 108 | 64 | 1 | 1 | 2 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 62% | 37% | 1% | 1% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 175 | 130 | 43 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 172 | 117 | 54 | 1 | 0 | 2 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 68% | 31% | 1% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 170 | 115 | 54 | 1 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 68% | 32% | 1% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 160 | 84 | 69 | 6 | 1 | 16 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 52% | 43% | 4% | 1% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 169 | 114 | 54 | 1 | 0 | 6 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 67% | 32% | 1% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 174 | 123 | 50 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 71% | 29% | 1% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 172 | 93 | 77 | 0 | 2 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 54% | 45% | 0% | 1% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 160 | 96 | 62 | 2 | 0 | 12 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 39% | 1% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 171 | 102 | 65 | 4 | 0 | 4 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 171 | 114 | 57 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 157 | 90 | 65 | 2 | 0 | 14 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 57% | 41% | 1% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 171 | 87 | 78 | 5 | 1 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 51% | 46% | 3% | 1% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 174 | 91 | 78 | 4 | 1 | 2 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 52% | 45% | 2% | 1% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 165 | 86 | 70 | 7 | 2 | 11 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 52% | 42% | 4% | 1% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 170 | 98 | 71 | 1 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 42% | 1% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 139 | 78 | 57 | 3 | 1 | 23 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 56% | 41% | 2% | 1% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 171 | 89 | 69 | 11 | 2 | 4 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 52% | 40% | 6% | 1% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 166 | 99 | 64 | 2 | 1 | 6 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 39% | 1% | 1% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anwen Eluned Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Robert Gwyn Williams | Arolygydd Tîm |
| Caroline Rees | Arolygydd Tîm |
| Maldwyn Ellis Pryse | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Nia Daly | Arolygydd Cymheiriaid |
| Meryl Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.